

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 67/2018
DYDDIAD CYHOEDDI: 13/12/2018

Gwerthusiad Canol Tymor o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dyma'r gwerthusiad canol tymor o raglenni Busnes Cymru a Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE). Mae'r astudiaeth yn archwilio gweithredu'r rhaglenni a'r canlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn llywio cyflenwi'r rhaglen yn y dyfodol. Cafodd yr ymchwili ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chyflawni gan ICF Consulting rhwng mis Mai 2017 a mis Medi 2018.
- 1.2 Ar y cyfan, mae'r rhaglenni yn gweithio'n dda. Mae siop un stop ar gyfer busnesau a busnesau newydd o dan faner Busnes Cymru wedi cael ei sefydlu yn ôl y bwriad, ac mae'r model cyflawni yn gweithio'n dda. Mae'n alinio ei hun yn effeithiol â chymorth busnes arall yng Nghymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y rhaglenni, sy'n perfformio'n dda yn erbyn eu targedau canlyniad: swyddi a grëwyd a chynnydd mewn allforion. Er y bu rhywfaint o oedi o ran dechrau'r gwasanaeth Craidd a Thwf, sydd wedi effeithio ar ei berfformiad yn erbyn targedau allbwn, megis nifer y busnesau a gefnogwyd, mae camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi cyflawni bron â bod ei holl dargedau.

Rhaglen Busnes Cymru a Manteisio ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE)

- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ei ddryniad o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) o gylch cyllido 2014–2020 er mwyn cefnogi twf busnes ac entrepreneuriaeth yng Nghymru. Gwnaeth chwe phrosiect ERDF (Cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig, Cymorth Entrepreneuriaeth, ac SFBE yn nwyrain Cymru a'r un tri phrosiect yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) gyflenwi amrediad o weithgareddau ar gyfer busnesau ac entrepreneuriaid drwy un brand, sef Busnes Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:
 - **Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru**, sy'n darparu 'siop un stop' i gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid, gan gynnwys porth ar-lein a llinell

gymorth bwrpasol; taflenni gwybodaeth, cyrsiau a thiworialau ar-lein; gweithdai wyneb yn wyneb; asesiad o anghenion diagnostig; a chyngor busnes un i un. Mae'r rhaglen yn wasanaeth gwahaniaethol, gyda'r lefel o gymorth yn ddibynnol ar botensial y buddiolwr i dyfu. Mae'r lefelau cymorth yn amrywio o Lefel 1 (micro fusnesau a'r rheini sy'n hunangyflogedig) i Lefel 4 (sefydliadau mwy gyda photensial twf uchel). Mae'r lefelau cymorth yn berthnasol i fusnesau sy'n bodoli eisoes a'r rheini nad ydynt wedi dechrau eto.

- **Rhaglen Cyflymu Twf** ar gyfer busnesau ac entrepreneuriaid sydd â'r potensial ar gyfer twf uchel (wedi'i ddiffinio fel cynnydd o 20% mewn trosiant o un flwyddyn i'r llall am bum mlynedd). Mae'r rhaglen yn darparu cyngor busnes cyffredinol ac arbenigol wyneb yn wyneb ar gyfer hyd at dair blynedd, hyd at uchafswm o 60 awr o gymorth.
- Rhaglen ar **Entrepreneuriaeth Ieuencid**, sy'n darparu sesiynau gwybodaeth a chymorth dwys ar gyfer unigolion rhwng 14 a 25 oed ar fanteision dechrau busnes a'r cymorth ar gyfer gwneud hynny. Mae'n cynnwys pedwar llinyn: Ymgysylltu, sy'n trefnu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth mewn ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch drwy rwydwaith o fodelau rôl; Grymuso, sy'n cynnig cyfres o gystadlaethau sgiliau wedi'u trefnu mewn ysgolion; Cyfarparu, sy'n cynnwys cyngor busnes un i un ar gyfer pobl ifanc a sesiynau 'bwtcamp' busnes; a Chyfnewid Entrepreneuriaeth, sy'n adeiladu rhwydwaith o sefydliadau sy'n darparu addysg entrepreneuriaeth.
- Rhaglen a oedd yn ariannu ymchwil ac astudiaethau gyda Sefydliad Technolegol Massachusetts i nodi ffyrdd o greu tirwedd fwy entrepreneuraidd yng Nghymru (**Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol – REAP**). Roedd hyn yn cynnwys cyfres o bedwar gweithdy lle roedd disgwyl i'r sawl a oedd yn mynychu ddatblygu strategaeth i wella amodau ar gyfer entrepreneuriaeth yng Nghymru.
- Y rhaglen **SFBE**, sy'n anelu at gynorthwyo busnesau i wneud defnydd gwell o dechnoleg a band eang i wella perfformiad busnesau. Gall busnesau ac entrepreneuriaid gael mynediad at wybodaeth a chyngor ar-lein drwy wefan Busnes Cymru, mynychu gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb ar destunau sy'n ymwneud â manteisio ar TGCh, a chael cyngor ac arweiniad un i un oddi wrth ymgynghorydd busnes i ddatblygu cynllun gweithredu.

- 1.4 Mae'r holl raglenni yn cael eu rheoli gan staff Llywodraeth Cymru, gyda cheisiadau cyllid chwarterol yn cael eu cyflwyno i Sefydliad Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae'r gwaith o gyflenwi'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael ei contractio allan i gontractwyr annibynnol sy'n cael eu penodi drwy dendro agored a chystadleuol. Gwnaeth y prosiectau ddechrau yn 2016 a byddant yn gorffen ym mis Rhagfyr 2020.
- 1.5 Mae rhaglenni cymorth busnes eraill a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru nad ydynt o fewn cwrpas y gwerthusiad, megis Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru a Chyswllt Ffermio. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn archwilio

cyfatebolrwydd Busnes Cymru a'r rhaglen SFBE gyda'r rhaglenni eraill hyn sy'n cyflenwi cymorth a chyllid busnes ac mae'n canfod, ar y cyfan, fod cysylltiadau effeithiol sydd wedi eu hen sefydlu ar waith.

Methodoleg ymchwil

- 1.6 Gwnaed yr astudiaeth mewn tri cham. Gwnaed y cam cyntaf (cam cychwynnol) rhwng mis Mai 2017 a mis Medi 2017. Yn y cam hwn:
 - Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda staff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli pum rhaglen Busnes Cymru.
 - Cafodd dogfennau'r rhaglen eu hadolygu i gasglu gwybodaeth bellach ar resymeg a strwythur y rhaglenni.
 - Cafodd adolygiad o'r deunydd darllen ei gwblhau er mwyn archwilio'r llenyddiaeth academiaidd a llwyd yn gwerthuso canlyniadau'r rhaglenni sy'n cyflenwi cymorth busnes ac entrepreneuriaeth.
- 1.7 Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r ymchwil hon er mwyn datblygu modelau rhesymeg ar gyfer pob un o'r rhaglenni a fframwaith gwerthuso ar gyfer cynnal y gwerthusiad canol tymor.
- 1.8 Gwnaed yr ail gam (cam gwerthuso interim) rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018 a'r cam terfynol (cam gwerthuso canol tymor) rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2018. Ar draws y ddau gam, ymgwymerwyd â'r tasgau ymchwil canlynol:
 - **Cyfweiliadau gyda'r saith contractwr** sy'n cyflenwi gwasanaethau Busnes Cymru a'r rhaglen SFBE.
 - **Cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r 24 partner cyflenwi**, gan gynnwys 12 ymgynghorydd busnes Busnes Cymru a'r rhaglen SFBE, chwe model rôl Entrepreneuriaeth leuenctid, a thri phartner Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol.
 - **Cyfweiliadau â 90 o fuddiolwyr rhaglen**, gan gynnwys 12 buddiolwr a dderbyniodd cymorth Lefel 1 a 2; 20 o fuddiolwyr a dderbyniodd cymorth Lefel 3 a 4; 20 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth o'r Rhaglen Cyflymu Twf; 18 o fuddiolwyr a dderbyniodd gymorth gan y rhaglen SFBE; 13 o ysgolion neu golegau y gwnaeth eu myfyrwyr elwa ar sesiynau Entrepreneuriaeth leuenctid; a saith o bobl ifanc a fynychodd sesiynau bwtcamp Entrepreneuriaeth leuenctid.
 - **Cyfweiliadau â deg o randdeiliaid**, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, banciau lleol, awdurdodau lleol, a staff sy'n cyflenwi'r rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru.
 - **Cyfweiliadau dilynol â staff Llywodraeth Cymru** sy'n gyfrifol am reoli pum rhaglen Busnes Cymru.

- **Dadansoddiad o ddata perfformiad**, gan gynnwys gwybodaeth fonitro Llywodraeth Cymru, ffurflenni datganiad chwarterol a gyflwynwyd i WEFO, data o'r System Cyfrifon Busnes ar nodweddion buddiolwyr a'r math o gymorth y gwnaethant ei dderbyn, a'r ffurflenni adborth ar ôl y gweithdy.
- **Adolygiad o ddata ac ymchwil**, gan gynnwys data o Don Tri Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Busnes Cymru, arolwg o gyfranogwyr yn llinyn Ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid, adolygiad o bolisi economaidd Llywodraeth Cymru a data marchnad lafur Cymru, a dadansoddiad eilradd o astudiaethau achos ac ymchwil gan Brifysgol Caerdydd ar effaith mentrau'r rhaglen SFBE ac aeddfedrwydd digidol busnesau yng Nghymru.

2. Canfyddiadau allweddol

Perfformiad yn erbyn y cynllun

- 2.1 Mae'r prosiectau Cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig a Chymorth Entrepreneuriaeth wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau canlyniad, megis cynyddu swyddi ac allforion mewn mentrau a gefnogwyd. Fodd bynnag, nid ydynt wedi perfformio cystal yn erbyn eu targedau ar gyfer y themâu trawsbynciol (cynaliadwyedd amgylcheddol a chydraddoldeb ac amrywiaeth) ac mewn targedau allbwn ar nifer y mentrau ac unigolion sy'n derbyn cymorth anariannol. Gall peth o'r tanberfformio gael ei briodoli i ddechreuad araf oherwydd yr amser estynedig y cymerodd i drosglwyddo staff o'r contractwr blaenorol, a'r galw cyfyngedig am gymorth ar themâu trawsbynciol cyn i dîm Busnes Cymru ddatblygu proses ar gyfer buddiolwyr i addo cymorth ar gyfer datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 2.2 Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid a'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol wedi perfformio'n dda yn erbyn bron eu holl dargedau perfformiad. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid wedi gorberfformio yn erbyn ei thargedau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn entrepreneuriaeth ac ar gyfer nifer y sesiynau gweithdai a gyflenwyd mewn sefydliadau darparwyr addysg cyn- ac ar ôl-16. Mae nifer y cyfranogwyr mewn sesiynau bwtcamp islaw'r targed ond roedd hyn yn bennaf oherwydd y bu'n rhaid canslo un digwyddiad allweddol ac roedd hynny heb ei ragweld. Mae'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol yn perfformio yn unol â disgwyliadau rhanddeiliaid, gyda Chwmni Buddiannau Cymunedol (Creu Sbarc) wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2017 a chynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ym mis Ionawr 2018. Mae'r rhaglen hefyd wedi cynnal cefnogaeth gan y sawl a fynychodd y gweithdai.
- 2.3 Mae'r prosiectau SFBE wedi perfformio yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer busnesau sy'n derbyn cymorth anariannol ond maent dipyn y tu ôl i'w targed ar gyfer mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau sy'n newydd i gwmnïau. Gellir priodoli

hyn i anawsterau gweithredol amrywiol o ran casglu'r gofynion tystiolaeth oddi wrth fuddiolwyr. Mae hyn yn derbyn sylw gweithredol.

Ymgysylltu â buddiolwyr

- 2.4 Ar draws yr holl raglenni, gwnaeth y buddiolwyr busnes gwmpasu amrediad eang o sectorau. Fodd bynnag, mae peth amrywiaeth. Gwnaeth y Rhaglen Craidd a Thwf recriwtio cyfran gymharol uchel o fusnesau gweithgynhyrchu a TGCh ond gwnaeth y rhaglen SFBE recriwtio cyfran gymharol uchel o fusnesau lletygarwch. Cymharol brin y gwnaeth y ddwy raglen recriwtio busnesau o'r sectorau adeiladu ac iechyd.
- 2.5 Roedd gan y rhaglen SFBE, y Rhaglen Cyflymu Twf a'r Rhaglen Craidd a Thwf ddosbarthiad gweddol deg o fuddiolwyr ledled Cymru. Roedd de/de-ddwyrain Cymru wedi'u gorgynrychioli ychydig ymhlith y busnesau Rhaglen Craidd a Thwf a gogledd Cymru ymhlith y busnesau SFBE.
- 2.6 Roedd y rhaglenni yn llwyddiannus iawn o ran recriwtio perchnogion busnes sy'n fenywod. Roeddent yn cynrychioli 46% o'r buddiolwyr rhaglen er eu bod yn cynrychioli 20% yn unig o'r holl berchnogion busnes yn y DU. Fodd bynnag, roedd ychydig o amrywiad rhwng y rhaglenni.
- 2.7 Prin iawn oedd y buddiolwyr a oedd yn dymuno derbyn cyngor busnes drwy gyfrwng y Gymraeg; er hynny, roedd rhai wedi dewis rhyngweithio'n anffurfiol ag ymgynghorwyr busnes yn y Gymraeg. Cafodd hyn ei briodoli, hyd yn oed ymysg y rhai sy'n siarad Cymraeg, i fuddiolwyr yn nodi hoffter i gyfathrebu'n ffurfiol yn Saesneg. Gwnaeth yr holl gontractwyr adrodd bod ganddynt ddarpariaeth i gyflenwi'r holl gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ansawdd cyflenwi a rheoli

- 2.8 Yn gyffredinol, roedd bodlonrwydd buddiolwyr uchel â gweithgareddau Busnes Cymru. Yn yr Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid, roedd 88% o ymatebwyr yn fodlon â'r cymorth y gwnaethant ei dderbyn. Roedd adborth arbennig o gadarnhaol oddi wrth y rhai a wnaeth ymateb i'r arolwg a'r cyfweleion ynglŷn â'r llinell gymorth yn ogystal â'r gweithdai a'r sesiynau cymorth busnes un i un a gyflenwyd drwy'r rhaglenni Craidd a Thwf ac SFBE. Yr unig fater cyffredin a godwyd gan ychydig o'r cyfweleion oedd yr oedi hir rhwng cael mynediad at y llinell gymorth a chael ymgynghorydd busnes yn cysylltu â nhw.
- 2.9 Dywedodd cyfran sylweddol (40%) o'r sawl a wnaeth ymateb i'r arolwg y byddent yn barod i dalu am agweddau ar y gwasanaethau busnes roeddent yn eu derbyn oddi wrth Fusnes Cymru (a 25% 'efallai' yn fodlon talu) – yn arbennig ar gyfer cyngor/cymorth arbenigol, wedi'u dilyn gan y gweithdai.
- 2.10 Gwnaeth cymorth y Rhaglen Cyflymu Twf dderbyn adborth mwy cymysg. Dywedodd rhai cyfweleion fod y cymorth yn ddefnyddiol iawn a gwnaethant ganmol brwdfrydedd a gwybodaeth y cynghorydd. Fodd bynnag, dywedodd eraill nad oedd lefel y cymorth y gwnaethant ei dderbyn wedi cyfateb i'w disgwyliadau ac roedd y cyswllt yn rhy anaml.

- 2.11 Roedd safbwyntiau cymysg hefyd o ran gwefan Busnes Cymru. Dywedodd tua thri chwarter o'r ymatebwyr eu bod yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth roeddent ei hangen. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr a chyfweleion eu bod eisiau gwybodaeth wedi'i theilwra'n fwy i'w hardal leol a'u busnes. Gwnaeth y gwaith dadansoddi'r we ddarganfod bod cyfradd fownsio gymharol uchel ar y wefan.
- 2.12 O ran cymorth busnes ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol, gwnaeth y rhan fwyaf o gyfweleion gydnabod eu bod wedi cael cynnig cyngor. Roedd rhai wedi elwa ar hyn, er enghraifft drwy leihau eu defnydd o ynni neu wella eu harferion recriwtio. Fodd bynnag, ni wnaeth y rhan fwyaf dderbyn y cynnig am gyngor gan fod mwy o ddiddordeb ganddynt mewn datblygu camau gweithredu eraill yn deillio o'r cyngor busnes.
- 2.13 Prin y gwnaeth y cynghorwyr busnes a gyfwelwyd fel rhan o'r sampl werthuso waith hyrwyddo ynglŷn â sut y gallai busnesau gefnogi gwell defnydd o'r iaith Gymraeg, oni bai fod y buddiolwyr wedi holi am hynny'n benodol. O ganlyniad, prin oedd yr enghreifftiau o fuddiolwyr yn gwneud newidiadau rhagweithiol i'w busnes er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- 2.14 Ar y cyfan, roedd ysgolion a phobl ifanc yn gadarnhaol ynglŷn â gweithgareddau ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Dywedodd ychydig yn llai na dau draean o'r disgyblion o dan 16 oed a thri chwarter o'r myfyrwyr addysg bellach a oedd yn ymateb i arolwg iddynt gael tipyn o effaith / effaith enfawr ar eu gwybodaeth am ddechrau busnes. Yn y cyfweiliadau ansoddol, gwnaeth y cymorth busnes a'r sesiynau bwtcamp hefyd dderbyn adborth cadarnhaol oddi wrth y buddiolwyr.
- 2.15 Yn gyffredinol, tybiwyd bod y rhaglenni wedi'u rheoli a'u cyflenwi'n dda gan gontractwyr a Llywodraeth Cymru. Y prif fater oedd iddo gymryd amser hir i dderbyn cymeradwyaeth derfynol ar gyfer newidiadau i gontractau contractwyr, megis y cynllun cyflenwi diwygiedig a chaniatáu'r defnydd o lofnodion digidol.
- 2.16 Ar ôl ymgysylltu cymharol gyfyngedig hyd at ganol 2017, mae tystiolaeth o gontractwyr Busnes Cymru yn gweithio'n fwy sylweddol gydag awdurdodau lleol a Banc Datblygu Cymru er mwyn gwella'r nifer sy'n cymryd rhan ac sy'n cael eu hatgyfeirio. Mae rhai mecanweithiau atgyfeirio sydd wedi eu hen sefydlu rhwng cynghorwyr busnes a sefydliadau'r sector preifat a sefydliadau lleol. Mae'r rhain yn seiliedig ar rwydweithiau lleol sefydledig a chysylltiadau personol.
- 2.17 Gwnaeth y contractwyr adrodd bod nifer o atgyfeiriadau rhwng y timau Craidd a Thwf a thimau'r Rhaglen Cyflymu Twf ac Entrepreneuriaeth leuenctid, ond ei fod wedi cymryd mwy o amser i sefydlu atgyfeiriadau rhwng y rhaglenni SFBE a Chraidd a Thwf, yn bennaf yn sgil yr amwysedd dros y broses ar gyfer cefnogi unigolion sydd angen cymorth oddi wrth y ddau wasanaeth.

Y rhesymau dros fynediad i fusnes a'i ganlyniadau

- 2.18 Dywedodd nifer o ymatebwyr busnes i Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid y Rhaglen Craidd a Thwf eu bod wedi derbyn cymorth ynglŷn â dechrau busnes a rheoli busnes

yn gyffredinol, gyda chyfrannau uwch o fusnesau Lefel 3 a Lefel 4 yn cael cyngor a chymorth ar bynciau penodol. Gwnaeth y cyfweleion nodi bod hwn yn cwrpasu amrediad eang o bynciau a bod y rhain yn dod yn fwy arbenigol ar gyfer busnesau Lefel 3 a 4. Roedd ymatebwyr y Rhaglen Cyflymu Twf yn cael eu cefnogi yn fwy aml ar fasnachu'n rhyngwladol, sydd yn unol â'r ffocws ar gefnogi busnesau i dyfu drwy fasnachu y tu allan i Gymru.

- 2.19 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod y cyngor a'r cymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnesau (78%), gyda 47% yn dweud ei bod yn gadarnhaol iawn. Gwnaeth y rhan fwyaf o fuddiolwyr busnes Lefel 1 a 2 adrodd bod y cymorth wedi cynyddu eu hyder o ran goroesi a thyfu eu busnesau a'u galluogi i gystadlu yn effeithiol, a oedd yn debyg yn gyffredinol i fusnesau Lefel 3 a 4, y Rhaglen Cyflymu Twf, a'r rhaglen SFBE.
- 2.20 Dywedodd busnesau ac entrepreneuriaid a gefnogwyd ar bob lefel eu bod wedi gwneud gwelliannau i'w gweithgareddau busnes o ganlyniad i'r cyngor a chymorth yr oeddent wedi eu derbyn. Gallai'r rhan fwyaf gyfeirio at effeithiau cadarnhaol ar eu heffeithlonrwydd neu drosiant. Ar gyfer busnesau Lefel 3 a 4, roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'w systemau ariannol ac adnoddau dynol, marchnata a chydymffurfiaeth. Yn y Rhaglen Cyflymu Twf, roedd dwyster y cymorth a roddwyd i fusnesau yn dibynnu ar raddfa'r newid roeddent yn ei wneud i'w sefydliad. Roedd y rheini a oedd yn gwneud newidiadau mawr (megis adleoli eu gweithrediadau gweithgynhyrchu yng Nghymru) yn adrodd am fwy o effeithiau o'r cymorth roeddent wedi'i dderbyn.
- 2.21 Mae gweithgareddau Ymgysylltu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl ifanc ynglŷn â dechrau busnes drwy gynyddu eu cymhelliant a'u hyder. Mae'r contractwr cyflenwi a'r rhanddeiliaid yn credu bod gweithgareddau Cyfarparu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi helpu pobl ifanc sydd wedi cyfranogi i wneud cynnydd tuag at ddechrau busnes. Mae ychydig o gyfranogwyr wedi dweud bod y sesiynau bwtcamp wedi eu cynorthwyo i ddechrau busnes, er nad dyna oedd y catalydd.

Effeithiau

- 2.22 Mae'r rhaglenni wedi galluogi y rhan fwyaf o fusnesau i gael mynediad at gyngor a chymorth na fyddent wedi'u defnyddio fel arall. Dim ond 16% o fusnesau Lefel 1 a hanner y busnesau yn y Rhaglen Cyflymu Twf a wnaeth ymateb i'r arolwg oedd wedi cael mynediad at gymorth preifat, gan awgrymu bod y rhaglen yn mynd i'r afael â methiant y farchnad. Gwnaeth y busnesau a gafodd eu cyfweld esbonio bod hyn oherwydd bod y rhaglenni yn ddiduedd, y gellir ymddiried ynddynt ac am ddim, yn ogystal â bod yn hygyrch / darparu'r cyngor roeddent ei angen.
- 2.23 Mae'r rhaglenni wedi creu twf busnes. Mae busnesau Lefel 4 ac yn arbennig y busnesau yn y Rhaglen Cyflymu Twf wedi cynyddu allforion o £66 miliwn (£183,000 fesul busnes a gefnogwyd) ac wedi creu dros 8,200 o swyddi (yn amrywio o gyfartaledd o 0.6 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer busnesau Lefel 1 i 2.8 o

swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer busnesau Lefel 4 ac 8.4 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Rhaglen Cyflymu Twf).

- 2.24 Mae'r rhaglenni wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at greu tirwedd fwy entrepreneuriaidd ac at gefnogi busnesau newydd. Mae'r Rhaglen Craidd a Thwf eisoes wedi ymgysylltu â dros 4,000 o entrepreneuriaid, gyda thua thraean yn mynd yn eu blaenau i ddechrau busnes. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi gwella dyheadau pobl ifanc, gyda dau draean yn nodi iddi eu helpu i sylweddoli beth y gallent ei gyflawni a 40% yn nodi iddi wneud iddynt feddwl am ddechrau busnes.
- 2.25 Gwnaeth y cyfweiliadau ansoddol ac astudiaethau achos ganfod bod y rhaglen SFBE hefyd wedi arwain at fusnesau'n gweithredu newidiadau sydd wedi creu effeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a oedd yn caniatáu gwell rheoli ar ddata a chyfrifiadura cwmwl fel y gallai staff weithio'n fwy hyblyg. Gwnaeth rhai cyflogwyr hefyd adrodd am dyfu eu sail busnes o ganlyniad i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol.

Cyfatebolrwydd a gwerth ychwanegol

- 2.26 Mae cytundeb cyffredinol ymhlith darparwyr cymorth busnes fod rhaglenni Busnes Cymru yn ategu cymorth busnes arall a gynigir a'u bod yn llenwi bwlch mawr o ran yr hyn sydd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o entrepreneuriaid a busnesau. Maent yn cadarnhau tystiolaeth busnesau sydd wedi adrodd bod y Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi darparu cyngor a chymorth sydd wedi eu galluogi i gael mynediad llwyddiannus at gyllid. Heb y cymorth, byddai ceisiadau wedi bod yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus.
- 2.27 Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi galluogi ysgolion a cholegau i ddiwallu anghenion pobl ifanc o ran dysgu am entrepreneuriaeth, er bod hyn yn ddisgwyliedig fel rhan o'r cwricwlwm. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi ategu gwaith grwpiau sy'n cefnogi pobl ifanc i'w helpu i bontio tuag at gyflogaeth.
- 2.28 Mae'r rhaglenni yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi'r llywodraeth yn y Cynllun Gweithredu Economaidd ar gyfer Cymru, gan gynnwys camau gweithredu ar allforion, masnach, entrepreneuriaeth ac arferion busnes cyfrifol, fel yr amlinellwyd yn egwyddor Llywodraeth Cymru o fuddsoddi gyda diben cymdeithasol a'r contract economaidd gyda busnesau.

3. Casgliadau ac argymhellion

- 3.1 Mae gwasanaeth Busnes Cymru fwy neu lai wedi sefydlu fel 'siop un stop' ar gyfer busnesau a busnesau newydd i gael mynediad at gymorth. Cafodd camau cadarnhaol eu cymryd gan y rhaglen i hyrwyddo brand Busnes Cymru a'r wefan / gwasanaethau llinell gymorth a'i gysylltiadau â gwasanaethau eraill. Mae alinio'r Rhaglen Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf â chymorth busnes arall sydd eisoes ar gael yng Nghymru hefyd yn digwydd. Yn gysylltiedig â hyn, mae brand

Busnes Cymru wedi meithrin enw da ymhlith buddiolwyr sy'n credu bod y cymorth a'r cyngor a gynigir yn ddiduedd, yn ddibynadwy ac yn hygyrch.

- 3.2 Mae'r modelau gwasanaeth yn gweithredu'n dda. Mae'r rhaglenni yn cael eu cyflenwi i safon uchel gan gcontractwyr ac mae'r profiadau wedi bod yn gadarnhaol. Mae ffocws cyffredinol ar wella ymgysylltu â phartneriaid dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi helpu i wella integreiddio Busnes Cymru gyda gwasanaethau cymorth eraill. Gellid adeiladu ymhellach ar y berthynas rhwng Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru er mwyn symleiddio atgyfeiriadau rhwng y ddau sefydliad.
- 3.3 Caiff hyn ei adlewyrchu yn gyffredinol ym mherfformiad y rhaglenni. Mae'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi perfformio'n dda yn erbyn ei thargedau a gcontractiwyd ar gyfer mentrau newydd a gefnogir, cynnydd mewn allforion a chreu swyddi ac mae wedi gwneud camau cadarnhaol i gefnogi busnesau lle y gallant greu swyddi uwchben y cyflog cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Craidd a Thwf wedi cyflawni ei thargedau a gcontractiwyd ar gyfer creu swyddi a'i tharged chwarterol ar gyfer cynnydd mewn allforion ers dechrau 2017. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi cyflawni neu wedi gorgyflawni bron ei holl allbynnau perfformiad. Mae'r rhaglen SFBE wedi cyflawni ei thargedau ar gyfer ymgysylltu ag unigolion a darparu cymorth dwys iddynt.
- 3.4 Mae'n amlwg fod yr oedi hir o ran contractio ac yna sefydlu darparwyr gwasanaeth y rhaglenni newydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r tanberfformiad gan y Rhaglen Craidd a Thwf o ran ymgysylltu â mentrau ac unigolion. Nid yw'r materion gweithrediadol eraill sydd wedi codi ar raddfa'r un mor sylweddol o ran effaith. Gallai rhai agweddau ar wasanaeth Busnes Cymru fod yn fwy ymatebol i angen/galw gan fuddiolwyr. Er enghraifft:
- Er bod atgyfeiriadau rhwng pob rhaglen yn digwydd, mae'r rhain wedi cymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd i gael eu sefydlu'n dda
 - Gwnaeth rhai defnyddwyr gwasanaeth adrodd am oedi rhwng gwneud cais am gyngor a chynghorwyr yn darparu cymorth
 - Mewn rhai achosion, nid oedd y galw wedi dod i'r amlwg, sef yr achos ar gyfer y cynlluniau datblygu cynaliadwy a'r gweithdai SFBE, er bod y ddau yn derbyn sylw
- 3.5 Er nad yw'n bosibl mesur neu ynysu yn gywir dylanwad cymorth Busnes Cymru ar gynnydd cenedlaethol, mae'n amlwg fod y rhaglenni wedi gwneud peth gwahaniaeth drwy wneud y canlynol:
- **Cynyddu mynediad at gymorth busnes:** drwy ddarparu gwasanaethau nad ydynt ar gael ledled Cymru ar gyfer mentrau, entrepreneuriaid a phobl ifanc sydd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth a thrwy roi cymorth i nifer fawr o fusnesau nad ydynt wedi defnyddio cymorth yn flaenorol.
 - **Creu twf busnes:** o ganlyniad i'r cymorth busnes a ddarperir yn cynyddu allforion a buddsoddiad mewn busnes ac yn creu swyddi, gyda thwf uchel yn

arbennig mewn manwerthu, cyfanwerthu, gweithgynhyrchu, a gwasanaethau proffesiynol a gwyddonol.

- **Creu tirwedd fwy entrepreneuraidd:** yn arbennig drwy ymestyn dyheadau pobl ifanc a'u cynnwys mewn dosbarthiadau a sesiynau bwtcamp ysgogol.
- **Cefnogi busnesau newydd:** drwy ddarparu cymorth i entrepreneuriaid posibl nad yw ar gael yn helaeth ledled Cymru, mae'r Rhaglen Craidd a Thwf yn gweithio tuag at gynyddu'r cyfrannau sy'n symud ymlaen i ddechrau busnes.

3.6 Mae rhaglenni Busnes Cymru yn parhau i feddu ar sail resymegol gadarn ar gyfer cyllid gan y llywodraeth. Maent yn dal i gyfateb yn gadarn i uchelgeisiau economaidd Llywodraeth Cymru, sef i gynyddu gwerth ychwanegol gros ac allforion gyda datblygu cynaliadwy, a chynyddu entrepreneuriaeth lwyddiannus – a chyda mwy o gymorth ar gyfer gweithgareddau busnes gyda photensial i dyfu. Mae rhywfaint o gyfatebiaeth gyda'r uchelgeisiau ar gyfer cyflogaeth o ansawdd uwch, er nad oes gyda phrentisiaethau.

Argymhellion

3.7 Wrth reoli'r rhaglen gyfredol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- Sicrhau bod y consortiwm a gontractiwyd gan y Rhaglen Craidd a Thwf yn cael ymgysylltu mwy cyson ag awdurdodau lleol, banciau'r stryd fawr a benthyccwyr busnes eraill.
- Alinio ffurflenni cais y rhaglenni (ar gyfer y rhaglenni Craidd a Thwf, Cyflymu Twf ac SFBE) gyda ffurflenni Banc Datblygu Cymru i sicrhau bod data digonol yn cael ei gasglu ar gyfer pob rhaglen – gan gynnwys caniatâd i gysylltu.
- Sicrhau bod modelau rôl yn ymwybodol o ac yn hyrwyddo'r systemau sydd ar waith er mwyn dilyn ac olrhain pobl ifanc sy'n mynegi cryn ddiddordeb mewn dechrau busnes.
- Ymgorffori sesiynau dilynol gyda buddiolwyr yn rhaglenni Busnes Cymru o fewn tri mis o'r ymgysylltu cychwynnol.
- Cynnal cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i fuddiolwyr, gyda sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu cyflenwi ar y cyd ag awdurdodau lleol a grwpiau busnes lleol i gyflenwi sesiynau sydd wedi eu teilwra i anghenion lleol.
- Ei wneud yn ofynnol i gynghorwyr busnes hyrwyddo buddiannau prentisiaethau i fuddiolwyr, a darparu gwybodaeth am ddarparwyr prentisiaethau lleol.
- Cyflwyno gofyniad i gynghorwyr busnes annog buddiolwyr i lofnodi 'llw' ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg a darparu canllawiau i gynghorwyr busnes ynglŷn â sut y gallant gefnogi busnesau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

3.8 Wrth lunio dyfodol cymorth busnes a datblygiad Busnes Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- Ymestyn cymorth entrepreneuriaeth i bobl ifanc mewn addysg uwch ac addysg bellach sydd â syniadau busnes gyda photensial ar gyfer twf.
- Prif ffrydio ymgysylltu entrepreneuriaeth yng nghwricwlwm yr ysgol drwy ganolbwyntio ar adeiladu capasiti.
- Cefnogi busnesau newydd a thwf busnes drwy wneud y canlynol: darparu mwy o gymorth un i un ar gyfer busnesau Lefel 2; cynyddu ymwybyddiaeth brand Busnes Cymru ymhlith pobl hunangyflogedig ac unig fasnachwyr; darparu mwy o ymgysylltu rhagweithiol parhaus â busnesau Lefel 3–5; parhau i fuddsoddi mewn cymorth i fusnesau i weithredu datrysiadau TGCh; a chael arbenigwyr technegol mewn datrysiadau TGCh o fewn gwasanaeth y contractwr yn y Rhaglen Craidd a Thwf.
- Ei wneud yn ofynnol i gontractwyr gynnal ‘archwiliadau’ datblygu cynaliadwy a chydaddoldeb ac amrywiaeth fel rhan integredig o'r cymorth busnes a ddarperir iddynt.
- Nodi pa wasanaethau cymorth busnes y gallai busnesau fod yn barod i dalu amdanynt pe bai'r cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei leihau, oherwydd y gallai nifer o fusnesau fod yn barod i dalu am rai ohonynt.
- Gosod targedau perfformiad ar gyfer rhaglenni er mwyn annog contractwyr i gefnogi busnesau i greu arbedion effeithlonrwydd, sy'n darparu hwb hirdymor i ysfa gystadleuol ac allforion.

Awduron yr Adroddiad: ICF Consulting



Adroddiad Ymchwil Llawn: Zaidi, A; Shah, P; and Beadle, S (2018). *Gwerthusiad canol tymor o wasanaethau cymorth busnes yng nghumru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 67/2018.

Ar gael ar: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-business-support-services-wales/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tom Stevenson
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: tom.stevenson2@llyw.cymru